

CANLLAWIAU

ATODIAD I  
"DIOGELWCH MEWN GWAITH STRYD A GWAITH Ffordd:  
COD YMARFER"

AR GYFER GWEITHIO'N DDIOGEL MEWN LLEOLIADAU  
CYFYNG

1. CYFLWYNIAD

Mae angen penodol am atodiad i'r Cod (Atodiad) oherwydd y problemau sy'n codi wrth weithio ar strydoedd a ffyrdd culion lle nad yw'n bosib cydymffurfio â "Diogelwch mewn Gwaith Stryd a Gwaith Ffordd" - Cod Ymarfer", (y Cod), na gofynion Pennod 8 o'r Llawlyfr Arwyddion Traffig (Pennod 8).

Mae Pwyllgor Awdurdodau Priffyrdd a Chyfleustodau Cymru (PAPC) wedi mabwysiadu'r atodiad hwn.

Mae'n bwysig cydnabod na ellir defnyddio'r atodiad hwn oni ellir dangos y gwnaed pob ymdrech i gydymffurfio â'r Cod a Phennod 8.

Bwriedir i'r atodiad hwn, ynghyd â chofnodion ysgrifenedig unrhyw asesiadau risg a wneir pan fo angen ei ddefnyddio, gael ei ystyried yn ddull diogel o weithio, fel y nodir ym mharagraff 3 o'r Cod.

Bydd diogelwch y gweithwyr a defnyddwyr y ffordd yng nghyffiniau'r gwaith stryd yn hollbwysig a phrif nod yr atodiad hwn fydd sicrhau y gwneir y gwaith stryd yn ddiogel, yn effeithlon gan amharu cyn lleied ag sy'n bosib a sicrhau'r diogelwch mwyaf posib i'r gweithwyr a defnyddwyr y ffordd.

Dylai unrhyw un a fydd yn gweithredu'r atodiad hwn ddeall na fydd yn eu hesgusodi na'u heithrio rhag unrhyw ddyletswyddau a rhwymedigaethau sydd ganddynt dan unrhyw ofyniad statudol, ond yn hytrach ei fod yn dangos y cymerwyd pob gofal posib i sicrhau diogelwch pawb dan sylw. Dylid barnu pob safle yn ôl ei rinweddau ei hunan a dylid cynllunio'r gwaith mewn modd cyfrifol. Bwriedir i'r canllawiau canlynol helpu yn hyn o beth.

Dylai pawb sy'n gweithio ar y briffordd nodi y gall fod y Cyngorau Sir yn gweithredu polisi dwyieithrwydd a gofynnir iddynt gadw ato i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol.

2. CYFFREDINOL

Os na fydd modd defnyddio llunwedd safonol o'r Cod Ymarfer bydd rhaid gwneud asesiad risg o'r amodau ar y safle, gan ddefnyddio'r "Asesiad Risg ar gyfer Arwyddo/Gwarchod Gwaith Stryd a Thyllu" er mwyn penderfynu ar lunwedd wahanol i'r un yn y Cod Ymarfer.

Nodir y pro forma arfaethedig ar gyfer Gwaith ar Balmentydd yn Atodiad 1, ar gyfer Rhwystrau Gosod yn Atodiad 2 ac ar gyfer "Cyfnod Golau Coch" yn Atodiad 3. Bydd modd cyfuno neu newid fformatau'r Aseidiadau Risg fel bo angen, ond dylent gynnwys o leiaf yr wybodaeth a nodir yn yr enghreifftiau.

Os gwnaed asesiadau wrth gynllunio'r gwaith bydd rhaid i'r Cyfleustod nodi a ydynt am weithredu'r Canllawiau hyn ar yr Hysbysiad Ffurflen N (Hysbysu ac Ateb).

Os gwneir asesiadau risg yn union cyn cychwyn ar y gwaith, bydd rhaid i'r Ymgymerydd sicrhau y cedwir yr Asesiadau Risg ar y safle a'u bod ar gael i staff yr Awdurdod Priffyrdd neu unrhyw un arall sydd â'r caniatâd priodol i'w gweld.

### **3 GWAITH AR DROEDFFYRDD**

#### **3.1 Darparu ar gyfer Cerddwyr (gweler Atodiad 1)**

Bydd angen codi rhwystrau i ddarparu troedffordd dros-dro i gerddwyr yn y lôn gerbyd pan fydd gwaith ar y palmant yn gadael llai nag 1.0m o led i gerddwyr. Bydd problemau mewn strydoedd culion, a phan codir rhwystrau gyferbyn â gwaith arall ar lôn gerbyd neu droedffordd.

Mewn adwy nodweddiadol i droedffordd lle gallai cerbyd basio'r gwaith mewn 5 eiliad ar y mwyaf neu lle gallai cerddwr yn gwthio pram neu rywun mewn cadair olwyn basio'r gwaith mewn 20 eiliad ar y mwyaf, mewn cyfnod o funud byddai modd i un cerddwr a dau gerbyd basio'n sylweddol ddiogel. O gymhwyso hyn i gyfnod o dri munud fel y nodir yn y Cod gwelir y gallai tri cherddwr a chwe cherbyd basio'n ddiogel drwy adwy o'r fath.

Felly gellid ystyried peidio â chodi troedffordd dros-dro i gerddwyr ar lôn gerbyd pe bai:

- llif y traffig yn chwe cherbyd neu lai mewn tri munud, a
- phe bai llif y cerddwyr yn dri neu lai i'r ddau gyfeiriad mewn tri munud, a'r
- cyfyngiad cyflymder yn 30 mya neu lai, a
- hyd y rhwystr ar y droedffordd yn ddim mwy na 7.5m (10.0m ar y mwyaf), a'r
- gyrwyr yn gallu gweld y gwaith o bellter o 46m o leiaf.

Mewn sefyllfa waith gynllunedig dylid anfon llythyr am "Ddiogelwch mewn gwaith stryd" at y preswylwyr lleol sy'n debygol o gael eu heffeithio, fel sy'n ofynnol yn Adran 5.5.5 o'r Cod Ymarfer ar gyfer Cydlynu Gwaith Stryd a Gwaith at Ddibenion Ffyrdd a Materion Cysylltiedig. Mae enghraifft o lythyr yn Atodiad 4.

#### **3.2 Gwarchod y Gwaith**

Dylid defnyddio rhwystrau i amgáu pob gwaith yn llwyr os oes gwaith tyllu'n cael ei wneud ar droedffyrdd.

#### **3.3 Gwaith mawr ar droedffyrdd.**

Os bwriedir gwneud gwaith ar rannau mwy helaeth o'r droedffordd, ac nid oes modd codi troedffyrdd dros-dro yn y lôn gerbyd, gellir cyfeirio cerddwyr i'r droedffordd arall, os oes un, os yw'r traffig cerbydau i'r ddau gyfeiriad yn llai na chwe cherbyd mewn cyfnod o dri munud.

## **4 GWAITH AR Y LON GERBYD**

Dylid defnyddio rheolaeth ar draffig os yw'n ofynnol yn ôl y meini prawf a dylid defnyddio arwyddion traffig dros-dro mewn pob gwaith o'r fath ar Gefnffyrdd a Phrif Ffyrdd mewn Ardaloedd Trefol a phob gwaith ar ffyrdd gwledig sydd heb gyfyngiad arnynt.

### **4.1 Darparu Ardaloedd Diogel**

Ar gyflymderau uwch na 40 mya mae'n ofynnol yn y Cod fod ardal ddiogel o 1.2m. Ar gyflymderau o 40 mya neu lai gellir lleihau'r ardal ddiogel i 0.5m. Mewn safleoedd lle nad yw'n bosib cynnal ardal ddiogel ynghyd â lled lôn minimwm ar gyfer y math o draffig a ddisgwylir, gellir lleihau'r ardal ddiogel os caiff y cyflymderau eu lleihau i 10mya neu lai.

Mae rhwystrau gosod ac arwyddion traffig dros-dro'n un ffordd o leihau cyflymder. (gweler Atodiad 2)

Os bydd angen lleihau cyflymder cerbydau, dylid gosod arwyddion traffig dros-dro ac arwyddion a chonau priodol yn unol ag Adran 5 er mwyn creu rhwystrau gosod ar bob pen i'r gwaith.

### **4.2 Gwaith ar Ffyrdd Cul Iawn. (gweler Atodiad 3)**

Er mwyn delio â rhai o'r problemau sy'n ymwneud â ffyrdd cul iawn dylid ystyried y canlynol o ran Mân Waith.

Gyda chaniatâd Awdurdod y Strydoedd bydd modd defnyddio goleuadau traffig dros-dro a fydd yn caniatáu 'cyfnod golau coch estynedig' ar gyfer Mân Waith ar ffyrdd cul iawn gyda llif traffig isel (yn bendant ddim ar Gefnffyrdd, na ffyrdd dosbarth A neu B) lle bo'r gwaith, gan gynnwys yr offer a ddefnyddir ayb, yn lleihau lled y ffordd yn llai na'r lled isaf posib ar gyfer y math o draffig a ddisgwylir, lle nad yw'n bosib cynnal troedffordd o 1.0m a lle nad oes llwybrau ymarferol eraill.

Bydd rhaid bod y gweithredwyr yn medru gweld pob pen i'r ffordd ar bob adeg, a bod yn gyfrifol am aildrefnu'r gwaith fel y gellir pennu'r lled ffordd isaf i adael i gerbydau ac/neu gerddwyr gael eu tywys heibio'r gwaith.

Dylai lleoliadau a phellteroedd yr arwyddion fod yn unol â'r Cod gan osod arwyddion ychwanegol fel bo angen. Ni ddylid oedi rhagor na 5 munud ar y cerbydau

Dylid gosod arwydd "Oedi Hir o'ch Blaen" ar y cyffyrdd sy'n arwain i'r gwaith. Fe wnaiff Awdurdod y Strydoedd hysbysu'r Gwasanaethau Argyfwng ymlaen llaw am leoliad y gwaith dan sylw a wneir gan Ymgwymerwyr ac Eraill gan ddefnyddio darpariaethau'r Atodiad hwn.

Bydd rhaid i'r Ymgwymerwyr ac eraill sy'n defnyddio darpariaethau'r atodiad hwn i wneud gwaith argyfwng neu waith brys hysbysu'r Gwasanaethau Argyfwng am y lleoliad ar unwaith.

Dylid rhoi mynediad i'r Gwasanaethau Argyfwng ar unwaith a'u hysbysu ymlaen llaw am leoliad y gwaith.

#### **4 CAU FFYRDD**

Dylid nodi y gall y cyfnod sy'n ofynnol i brosesu cais i Gau Ffordd amrywio ymhlith y Cynghorau Sir a dylid holi am hyn cyn trefnu unrhyw waith.

Os nad yw'n bosib aildrefnu'r gwaith i bennu lled isaf y ffordd yn unol â'r atodiad hwn i'r Cod yna bydd rhaid gwneud cais i GAU'R FFORDD.

## Atodiad 1

Asesiad Risg ar gyfer Arwyddo/Gwarchod Gwaith Stryd a Gwaith Ffordd ar Droedffyrdd

Cyferiad y Gwaith.....

Ymath o Waith.....

Gweithiwr: .....

Dyddiad: .....Amser: .....

Amser parhad arfaethedig y gwaith.....

### Y Peryglon a'r Risgiau a Nodwyd

1. A fydd modd gwarchod y gwaith gan ddefnyddiollunwedd safonol Bydd  Na fydd   
o'r cod?
2. Faint o led y lôn gerbyd a gedwir ar agor?.....
3. Faint o led y droedffordd a gedwir ar agor?.....
4. A yw hyn yn llai nag 1 metr? Ydyw  Nac ydyw
5. A oes angen troedffordd dros-dros? Ydyw  Nac ydyw
6. Faint o led y lôn gerbyd a gedwir yn agored gyda..... throedffordd dros-dro ac  
ardal ddiogel?
7. A yw'r pellter hwn yn llai na 3.0 metr Ydyw  Nac ydyw
8. Beth yw llif y traffig cerbydau i'r ddau gyfeiriad mewn 3 munud?.....
9. A yw'n llau na 6? Ydyw  Nac ydyw
10. Faint o gerddwyr sydd i'r ddau gyfeiriad mewn 3 munud?.....
11. A oes llai na 3? Oes  Nac oes
12. Beth yw'r cyfyngiad cyflymder mewn mya?.....
13. Beth yw'r hyd y gwaith mewn metrau?.....
14. A yw'n llai na 10 metr? Ydyw  Nac ydyw
15. A yw'r gyrwyr yn gallu gweld y gwaith o 46m? Ydynt  Nac ydynt
16. Unrhyw bwyntiau eraill perthnasol: .....

Noder yr amrywiad sy'n ofynnol: .....

Enw (llythrennau bras): .....Llofnod: .....

## Atodiad 2

Asesiad Risg ar gyfer Arwyddo/Gwarchod Gwaith Stryd a Gwaith Ffordd ar gyfer defnyddio Rhwystrau Gosod

Cyferiad y Gwaith.....

Y math o Waith.....

Gweithiwr: .....

Dyddiad: .....Amser: .....

Amser parhad arfaethedig y gwaith.....

Y Peryglon a'r Risgiau a Nodwyd

1. A fydd modd gwarchod y gwaith gan ddefnyddiollunwedd safonol o'r Bydd  Na fydd   
cod?

2. A ydych chi'n defnyddio arwyddion traffig dros-dro? Ydym  Nac ydym

3. Pa fath o ffordd yw hi? (Dileer fel bo'n briodol) Cefnffordd / Sirol – Trefol / Gwledig

4. Beth yw'r cyfyngiad cyflymder ar y ffordd mewn mya?.....

5. Pa fathau o draffig sydd?.....

6. Beth yw lled uchaf y lôn gerbyd sydd heb ei dyllu?.....

7. A yw'n llai na 4.25 metr? Ydyw  Nac ydyw

8. A yw'n llai na 3.5 metr? Ydyw  Nac ydyw

9. Beth yw hyd y gwaith?.....

10. A yw'n fwy na 100 metr? Ydyw  Nac ydyw

11. O ba bellter y gall gyrwyr weld gwaith?.....

12. Unrhyw wybodaeth arall berthnasol:.....  
.....

Noder yr amrywaid sy'n ofynnol:.....  
.....

Enw (llythrennau bras): .....Llofnod: .....

### Atodiad 3

Asesiad Risg ar gyfer Arwyddo/Gwarchod Gwaith Stryd a Gwaith Fford er mwyn defnyddio Signal Traffig 'Cyfnod Golau Coch Estynedig' Dros-dro

Cyferiad y Gwaith.....

Y math o Waith.....

Gweithiwr: .....

Dyddiad: .....Amser: .....

Amser parhad arfaethedig y gwaith.....

#### Y Peryglon a'r Risgiau a Nodwyd

1. A fydd modd gwarchod y gwaith gan ddefnyddiollunwedd safonol o'r cod? Bydd  Na fydd
2. A ydych chi'n defnyddio arwyddion traffig dros-dro? Ydym  Nac ydym
3. A yw hi'n ffordd drefol/wledig ddiddosbarth neu'n Ffordd Sirol Dosbarth 3? Ydyw  Nac ydyw
4. Beth yw'r cyfyngiad cyflymder ar y ffordd mewn mya?.....
5. Beth yw'r mathau o draffig arni?.....
6. Beth yw lled uchaf y lôn gerbyd sydd heb ei dyllu?.....
7. A yw'n llai na 3.0 metr? Ydyw  Nac ydyw
8. Beth yw hyd y gwaith mewn metrau?.....
9. A yw'r gweithwyr ar y safle'n gallu gweld pob pen i'r gwaith? Ydynt  Nac ydynt
10. O ba bellter y gall gyrwyr weld y gwaith?.....
11. Unrhyw bwyntiau eraill perthnasol:.....  
.....

Noder yr amrywiad sy'n ofynnol: .....

Enw (llythrennau bras): .....Llofnod: .....

#### Atodiad 4

Annwyl Syr/Fadam

#### **Diogelwch mewn Gwaith Stryd at Ddibenion y Ffyrdd**

**Lleoliad:**.....

**Disgrifiad o'r Gwaith:**.....

**Dyddiad Dechrau Arfaethedig:**.....

**Dyddiad Gorffen Arfaethedig:**.....

Bydd y gwaith a nodir uchod yn cynnwys tyllu ar y Stryd.

Bydd y gwaith ei hunan, yr arwyddion, y goleuadau a'r gwarchod ar y safle'n peri peth ymyrraeth i lif traffig cerddwyr a cherbydau ar y Stryd.

Bydd yr Awdurdod hwn yn gwneud y gwaith yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth bresennol a'r Codau Ymarfer er y gallai fod anawsterau neilltuol i bobl anabl e.e. y deillion neu bobl mewn cadeiriau olwyn.

Os gwyddoch chi am bobl anabl sy'n byw yn eich aelwyd chi neu mewn tai cyfagos cysylltwch

â.....ar.....a wnaiff geisio cynllunio'r gwaith gan roi cyfrif am anghenion arbennig yr anabl.

Yn gywir

## Atodiad 5

### Traffic Control for Restricted Road Width

